## Beth am farn y dioddefwr?

Mae dioddefwyr yn ganolog i'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae Rhybuddion Amodol yn rhoi ystyriaeth i farn y dioddefwr, yn ogystal ag amgylchiadau penodol yr achos. Maent yn cynnig ymateb cyflym i ymddygiad troseddol.

Mae'n ffordd o ddod â phethau i ben yn gyflym i'r dioddefwr, heb orfod mynd i'r llys, ac mae'n rhaid i'r troseddwr fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol ar unwaith.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i droseddwr sydd, er enghraifft, yn ddibynnol ar gyffuriau neu alcohol gan ei fod yn golygu y gallant fanteisio ar unwaith ar driniaeth i'w helpu i ddelio â'u problem sylfaenol.

## Beth am iawndal?

Iawndal i ddioddefwyr yw amod mwyaf cyffredin unrhyw Rybudd Amodol, a bydd niferoedd sylweddol o ddioddefwyr yn derbyn iawndal yn llawer cyflymach na phetaent wedi aros am broses y llys.

## Beth os na fydd y troseddwr yn cyflawni'r amodau?

Os na fydd y troseddwr yn cadw at eu hochr nhw o'r cytundeb, gall yr Heddlu/CPS benderfynu eu herlyn.

Os oes rhesymau da pam na all y troseddwr gwblhau'r Amod(au), efallai y bydd yn bosib ailasesu'r sefyllfa. Ond, ni fydd yr Heddlu/CPS yn amrywio'r Amod(au) oni bai fod rheswm derbyniol yn eu barn nhw.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r troseddwr gwblhau'r Rhybudd Amodol?

Os bydd y troseddwr yn cwblhau'r Amod(au) yn llwyddiannus, dyna ddiwedd ar y mater. Fyddan nhw DDIM yn cael eu herlyn am y trosedd.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y daflen, ***Cyfiawnder Adferol a'r Rhybudd Amodol — gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr***

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton, 01204 550803

# Y Rhybudd AMODOL

**Mae'r daflen hon yn egluro beth yw Rhybudd Amodol, pryd y gellid ei ddefnyddio a sut y gall helpu DIODDEFWYR troseddau**

Y Tîm Erlyn

System Cyfiawnder Troseddol

*Beth yw*

# RHYBUDD AMODOL?

**Mae Rhybudd Amodol yn ffordd newydd o ddelio â rhai troseddau.**

**Nid yw'r cynllun ar gael i droseddwyr difrifol, treisgar na throseddwyr cyson.**

**Gyda Rhybudd Amodol mae troseddwr, wrth gyfaddef iddo/iddi gyflawni'r trosedd, yn derbyn rhybudd gydag amod(au). Mae'r troseddwr yn cytuno i gwblhau'r Amod(au) yn hytrach na chael ei gyhuddo a'i erlyn. Nid oes raid i'r troseddwr dderbyn y Rhybudd Amodol ond yn hytrach fe all ddewis cael ei erlyn yn y llys.**

**Y CPS fydd yn penderfynu ar yr Amodau. Eu nod fydd ymdrin ag ymddygiad y troseddwr.**

## Pa fath o Amodau allai gael eu cynnig i droseddwr?

Mae dau fath o Amod.

Mae **AMOD AILSEFYDLU** yn ceisio helpu'r troseddwr i newid ei ymddygiad fel na fydd yn cyflawni rhagor o droseddau. Er enghraifft, mynd i sesiynau i gael gwybodaeth a dod yn ymwybodol o effeithiau defnyddio cyffuriau.

Mae **AMOD GWNEUD IAWN** yn ceisio helpu'r troseddwr i wneud iawn am y niwed y mae wedi'i achosi, un ai i unigolyn, neu i'r gymuned leol. Er enghraifft, talu am y difrod a achosodd.

## Beth yw manteision y Rhybudd Amodol?

Bydd y Rhybudd Amodol yn help'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS) i roi cyfiawnder syml, cyflym, diannod yn ogystal â hybu Cymdogaethau Diogelach a chefnogi Plismona Cymunedol.

Bydd y Rhybudd Amodol yn gyfle hefyd i ymdrin â throseddau sy'n cael effaith niweidiol ar ein safon byw, er enghraifft, trwy ein helpu i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyflym ac effeithiol.

## Sut mae'r Rhybudd Amodol yn gweithio?

Rhaid i'r troseddwr gyfaddef iddo/iddi gyflawni'r trosedd. Yna bydd yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn penderfynu a yw'r troseddwr yn addas i dderbyn Rhybudd Amodol.

## Pam byddai troseddwr yn derbyn Rhybudd Amodol?

Trwy dderbyn Rhybudd Amodol, gall y troseddwr gael help i roi'r gorau i droseddu cyn i bethau waethygu.

Bydd yn gyfle hefyd iddynt roi rhywbeth yn ôl i ddioddefwyr fel chi ac i'r gymuned yn gyffredinol, i wneud iawn am y pethau y maent wedi eu gwneud.

Os bydd yn eu derbyn, rhaid i droseddwyr gadw at amodau Rhybudd Amodol. Ond, ni fydd raid iddynt fynd i'r llys ac ni fyddant yn cael eu herlyn.